

Paratoi'r Rhestr Fer

Bydd Llenyddiaeth Cymru yn gwirio fod yr ymgeiswyr yn gymwys, fel â nodir yn nogfennau'r alwad agored. Bydd yr ymgeiswyr sy'n gymwys yn cael eu hasesu gan Gadeirydd y Panel Asesu, a fydd yn dewis rhestr fer o ddim mwy na 40 ymgeisydd i sicrhau nad yw'r baich gwaith yn rhy drwm i'r Panel.

Er tryloywder, bydd crynodeb o'r ceisiadau nad ydynt yn gymwys ynghyd â'r ymgeiswyr na gyrhaeddodd y rhestr fer yn cael eu cyflwyno i'r Panel cyfan, a gall Aelodau'r Panel wneud cais i gael gweld gwaith creadigol yr ymgeiswyr aflwyddiannus hefyd.

Pe na bydd ceisiadau fideo yn cyrraedd y rhestr fer, bydd y ceisiadau yn cael eu cyflwyno'n ddi-enw i'r Panel. Pe bydd cais fideo yn cyrraedd y rhestr fer, bydd yr holl geisiadau yn cael eu cyflwyno i'w hasesu gydag enw'r ymgeisydd i sicrhau tegwch â chysondeb.

Sut i Asesu

Byddwch yn derbyn yr holl geisiadau sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn unigol i'w marcio gan ddefnyddio taenlen yn fframwaith i'r gwaith asesu. Yn ogystal â rhoi marc, gallwch ychwanegu sylwadau ar gyfer pan fyddwch yn trafod fel grŵp.

I sicrhau tegwch – pe na fydd y ceisiadau yn cael eu cyflwyno'n ddi-enw, gofynnwn yn garedig i chi ddatgan budd os oes ymgeisydd penodol yn berthynas/bartner, ffrind da, partner busnes, neu am unrhyw reswm dilys arall. Mae croeso i chi gysylltu â Llenyddiaeth Cymru i drafod hyn. Pe byddwch yn datgan budd, byddwn yn gofyn i chi beidio â marcio'r cais penodol hwnnw, a byddwn yn gwobrwyo marc cyfartaledd gan weddill y Panel i'r ymgeisydd ar eich rhan.

Cyn cychwyn asesu, **darllenwch yr holl ddogfennau sydd wedi eu cyhoeddi** eto i atgoffa eich hun o amcanion a gwerthoedd Rhaglen Datblygu Proffesiynol Llenyddiaeth Cymru i Awduron o Liw.

Pan yn cwblhau'r daenlen asesu, gall y pwyntiau canlynol fod o gymorth:

- Mae diddordebau darllen pawb yn wahanol. Ond rhowch eich marc personol chi allan o 5 i **safon y gwaith ysgrifennu creadigol**.
- Mae'r galwad agored yn tanlinellu **potensial** fel un o'r rhinweddau pwysicaf. Eto, gall ddadansoddiad pawb o botensial fod yn wahanol. Fel syniadau: beth am edrych ar wreiddioldeb y cais a'r ysgrifennu creadigol, ffresni'r syniadau a'r llais. Oes gan yr ymgeisydd y potensial i ddatblygu'n llais newydd llwyddiannus a chyffrous yn niwylliant llenyddol Cymru? Yw'r ymgeisydd yn dangos brwdfrydedd ac uchelgais? Efallai fod angen mwy o arweiniad ar yr ymgeisydd i wella safon eu gwaith ysgrifennu, ond â oes ganddynt y potensial i fod yn awdur ardderchog?
- Bydd ceisiadau yn dod i law gan awduron newydd sbon, awduron ar gychwyn eu gyrfaedd, awduron mwy profiadol – ac efallai hyd yn oed rhai profiadol iawn sy'n wynebu rhwystrau i lwyddiant neu i dderbyn cydnabyddiaeth, neu rhai sydd â diddordeb mentro mewn *genre* newydd. Felly, rydym yn chwilio am awduron fydd yn cael y budd mwyaf o'r rhaglen ar y **cam hwn o'u gyrfa**. E.e. â ydynt wedi darparu rhesymeg dda dros pam eu bod yn credu y bydd y

rhaglen hon o gymorth **nawr**? Â ydynt wedi wynebu rhwystrau yn ddiweddar na fedrant eu croesi? Â ydynt yn awduron newydd sbon heb glem lle i gychwyn? Â ydynt wedi cyhoeddi eisoes cyn colli eu hyder?

Cyfarfod y Panel Asesu

Pan yn cwrdd fel grŵp, byddwn yn casglu eich marciau ynghyd i lunio consensws. Bydd Cyfarfod y Panel Asesu yn gyfle i chi ddadlau eich achos dros ymgeiswyr penodol, a thra y bydd cyfanswm y marciau yn arwain y broses ac yn fodd o ddatrys anghydfod – bydd y drafodaeth ar y diwrnod yr un mor bwysig, ac ar ddiwedd y dydd yn arwain at benderfynu ar y 12 awdur llwyddiannus, ynghyd â 3 awdur ar y rhestr wrth gefn yn eu trefn.

Fel â esbonnir yn y dogfennau galwad agored, gall y panel gymryd i ystyriaeth lleoliadau daearyddol a iaith yr ymgeiswyr.

Pe na bydd y Panel yn dod i gytundeb, bydd gan Gadeirydd y Panel bleidlais i benderfynu.

Am ragor o wybodaeth am y broses asesu, cysylltwch â Llenyddiaeth Cymru.